FFEDERASIWN AC UNSAIN HEDDLU GOGLEDD CYMRU

# Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiadau




POLICE Federation

UNISON

CYNRYCHIOLI, DYLANWADU, TRAFOD


HEDDLU
POLICE

# Cyflwyniad gan
# Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman

Mae'n bleser cael cais gan gydweithwyr o'r Ffederasiwn ac UNSAIN i ysgrifennu'r rhagair ar gyfer y llyfryn hwn ar Weithdrefnau Ôl-Ddigwyddiadau.

Rydym wedi dod yn bell iawn wrth ddefnyddio'r PIP hyn dros y blynyddoedd ac mae'n hanfodol bwysig i mi eu bod yn gydnaws â'n gweledigaeth a'n gwerthoedd o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Yn ystod eich gyrfaoedd ac oherwydd natur eich swyddi, mae posibilrwydd y gallech fod yn rhan o ddigwyddiad sy'n arwain at PIP.

Rwyf yn ymwybodol fod llawer ohonoch wedi bod yn gysylltiedig â PIP a gall fod yn hynod frawychus. Mae felly'n bwysig cael y llyfryn hwn er mwyn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i chi ynghylch y broses PIP. Mae'n rhoi eglurhad manwl ynghylch pam y symbylwyd PIP ac mae'n rhoi dealltwriaeth dda i chi o ran y broses ynghyd â phrofiadau o lygad y ffynnon gan y bobl hynny sydd wedi bod ynghlwm yn y broses. Rwyf hefyd yn gobeithio y gwelir datblygiad o ran chwalu'r chwedlau sydd yn bodoli.

Felly, rwyf yn eich annog i gymryd amser i ddarllen drwy'r llyfryn. Mae'n bwysig eich cynorthwyo chi ddeall sut rwyf i a'r heddlu yn gallu eich cynorthwyo chi yn y swydd rydych yn ei gwneud. Mae bod yn Swyddog Heddlu neu'n Staff Heddlu yn yrfa werth chweil. Ond rwyf hefyd yn gwybod pa mor anodd a heriol y gall fod, yn enwedig ar achlysuron prin iawn pan rydym angen defnyddio PIP. Mae'r broses yno er mwyn sicrhau fod gennych y cymorth rydych ei hangen a'i haeddu wrth hefyd sicrhau fod yr ymchwiliad yn digwydd mewn ffordd agored a thryloyw.

**Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman**

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE



## Mark Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol y Ffederasiwn



### Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiadau – Barn y Ffederasiwn

Cyn cael hyfforddiant mewn Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiadau, rhaid i mi fod yn hollol onest a dweud nad oedd gen i syniad beth oeddynt. Roeddwn yn amau yn dilyn saethu angheuol gyda drylliau tanio'r heddlu y byddai rhyw broses strwythuredig ond nid i'r fath raddau â PIP.

Fe ddewch chi ddeall o ddarllen y llyfryn hwn, bod Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiad yn llawer ehangach na drylliau tanio yn unig. Mae posibilrwydd gwirioneddol y gall un ohonom fod yn rhan o ddigwyddiad sy'n arwain at PIP.

Y pwyntiau mwyaf pwysig i'w pwysleisio am PIP ydy 1) lles ydy popeth a 2) os ydych yn rhan o PIP yna, ar y pwynt hwnnw, rydych yn dyst ac nid rhywun o dan amheuaeth. Yn syth wedi digwyddiad, gall cael eich cludo i ystafell PIP a derbyn cyfarwyddiadau wedi eu paratoi fod yn brofiad annifyr ond mae'r cyfan wedi ei gynllunio gyda'r bwriadau gorau. Ein nod yw sicrhau bod gweithdrefn deg, dryloyw a gwrthrychol mewn lle, gan sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei roi i anghenion lles y swyddogion.

Mae cynrychiolwyr Ffederasiwn yr Heddlu sy'n mynychu PIP i gyd wedi derbyn hyfforddiant ac asesiad er mwyn sicrhau bod ganddynt yr adnoddau gorau i'ch cefnogi. Byddwn yn gweithredu fel 'gwarchodwyr' a 'chraffwyr' er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn gofal corfforol a seicolegol ac o bosib yn bwysicaf oll, cyfreithiol. Byddwn yn sicrhau y byddwch yn cael y gynrychiolaeth gyfreithiol orau posib gan bobl sy'n deall ac sydd â phrofiad ym maes Gweithdrefnau Ôl Ddigwyddiad.

Ni fydd ein cynrychiolaeth yn gorffen ar y diwrnod a bydd yn parhau hyd nes bydd y mater yn cael ei ddatrys. Bydd hyn yn golygu ein bod ni'n dwyn SAYH yn atebol a sicrhau bod y rheolwr llinell yn deall eich anghenion lles yn y tymor hir.

Hoffwn ddiolch i'r holl gyfranwyr am eu cymorth wrth lunio'r llyfryn hwn, yn enwedig y swyddogion a staff sydd wedi bod yn rhan o PIP o'r blaen ac wedi rhannu eu profiadau.

Mae Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiad yn anhysbys i'r rhan fwyaf o'r gwasanaeth heddlu. Serch hynny, mae'n rhaid i chi wybod a deall y broses ond gallwn eich cynorthwyo gyda hyn. Rwyf yn eich annog chi i gysylltu â'ch cynrychiolydd Ffederasiwn lleol neu Swyddfa'r Ffederasiwn os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau.

**Diolch am gymryd amser i ddarllen y llyfryn hwn a chadwch yn ddiogel!**

**"Mae cynrychiolwyr Ffederasiwn yr Heddlu sy'n ymateb i PIP i gyd wedi derbyn hyfforddiant ac asesiad er mwyn sicrhau bod ganddynt yr adnoddau gorau i'ch cefnogi. Byddwn yn gweithredu fel 'gwarchodwyr' a 'chraffwyr' er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn gofal corfforol a seicolegol ac o bosib yn bwysicaf oll, cyfreithiol."**

## **Liz Mitchell,** Ysgrifennydd Cangen UNSAIN Heddlu a Chyfiawnder Gogledd Cymru

Pan oeddwn yn Stiward UNSAIN yn yr Ystafell Reoli, gofynnwyd i mi pe bawn i'n mynd ar Gwrs Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiad. Roeddwn wedi clywed am PIP ar y pryd ond wedi tybio ei fod ond yn berthnasol i Swyddogion Heddlu, a hynny'n Swyddogion Drylliau Tanio'n bennaf. Roedd y cwrs yn wythnos o hyd ac roedd gofyn llwyddo mewn arholiad ac asesiad ysgrifenedig ar y diwedd er mwyn cael ardystiad. Daeth yn amlwg yn fuan nad oedd y broses PIP ond yn berthnasol i Swyddogion Heddlu. Gallai Staff Heddlu fod yn gysylltiedig â'r broses hon hefyd. Mae grwpiau Staff Heddlu sydd mewn mwy o risg o fod ynghlwm â'r broses PIP yn cynnwys rhai'r Ystafell Reoli, SCCH, Ymchwilwyr Mannau a Lleoedd Trosedd, Swyddogion Ymchwilio Sifil, Staff Trwyddedu Drylliau Tanio, Swyddogion Dalfeydd a staff Cudd-wybodaeth.

Prif nod y broses PIP ydy sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion y bobl hynny sydd yn gysylltiedig. Gall hyn fod yn brofiad brawychus ac mae Cynrychiolwyr UNSAIN yn cael eu galw'n syth os ydy ein swyddogion yn gysylltiedig. Rydym yn cyfarfod â chi yn y Swît PIP ac yn eich arwain drwy'r broses ac yn aros gyda chi. Rydym wedyn yn eich cynorthwyo chi drwy unrhyw ymchwiliad wedyn. Os ydych yn cael eich galw ar gyfer PIP, cewch eich trin fel tyst allweddol, a byddwch angen cyngor cyfreithiol. Mae eich aelodaeth UNSAIN yn talu am y cyngor cyfreithiol hwn ac mae UNSAIN yn cynnig llinell gymorth gyfreithiol PIP 24 awr. Os oes angen, gwnaiff cyfreithiwr ddod i'r Ystafell PIP. Tra mae'r broses PIP yr un fath ag i Swyddogion Heddlu a Staff Heddlu, gan ein bod wedi'n cyflogi ar Amodau Gwasanaeth/Rheoliadau i Swyddogion Heddlu gwahanol, ni all Staff Heddlu gael eu cynrychioli gan y Ffederasiwn. Nid ydy'r Cynllun Yswiriant Grŵp yn talu am eich costau cyfreithiol ar gyfer proses PIP. Byddwch hefyd angen bod yn aelod o UNSAIN am bedair wythnos cyn y PIP er mwyn bod yn gymwys am gynrychiolaeth.



> **"Prif nod y broses PIP ydy sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion lles pawb sydd yn gysylltiedig. Gall hyn fod yn brofiad brawychus a gelwir ar Gynrychiolwyr UNSAIN yn syth os ydy ein haelodau yn gysylltiedig. Rydym yn cyfarfod â chi yn yr Ystafell PIP ac yn eich arwain drwy'r broses ac aros gyda chi. Rydym wedyn yn eich cynorthwyo chi drwy unrhyw ymchwiliad wedyn."**

# Y Ditectif Arolygydd Iwan Roberts, Prif Reolwr Ôl-Ddigwyddiadau Heddlu Gogledd Cymru (PIM)



Mae Gweithdrefnau Ôl Ddigwyddiadau wedi bodoli ers blynyddoedd, i ddechrau ar gyfer digwyddiadau yn ymwneud â drylliau tanio, ond erbyn hyn maent yn cael eu defnyddio ar gyfer nifer o ymchwiliadau ar ôl marwolaeth neu anaf difrifol (DSI) yn dilyn cysylltiad â'r heddlu. Mae'r ystadegau diweddaraf yn awgrymu fod 96% o PIP ar gyfer digwyddiadau gyda marwolaeth neu anaf difrifol yn hytrach na digwyddiadau gyda drylliau tanio.

Oherwydd natur ein gwaith a'r bobl rydym yn ymdrin â nhw fel swyddogion a staff yr heddlu, mae'n bosib y byddwn ni i gyd yn ymwneud â PIP ar rhyw bwynt yn ystod ein gyrfaoedd. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru dîm o 12 Rheolwr Ôl Ddigwyddiadau sy'n darparu rota ar alw 24/7 ar gyfer yr heddlu. Mae hyn y golygu y bydd Rheolwr ar alw ar gael er mwyn cynghori ac arwain uwch swyddogion a chynnal PIP. Mae gennym hefyd gytundeb dwyochrog mewn lle gyda Heddlu Swydd Gaer, gan fod ein cynghrair arfog gyda staff o'r ddau heddlu. Mae'r Rheolwyr yn dod o wahanol gefndiroedd plismona ac yn cynnwys arolygyddion a phrif arolygyddion.

Rydym yno'n bennaf er mwyn rhoi cymorth i unrhyw swyddogion a ystyrir yn Brif Dystion Heddlu. Rydym hefyd yn sicrhau bod ymchwiliad i'r amgylchiadau sy'n arwain i fyny at y farwolaeth neu anaf difrifol yn digwydd mewn ffordd agored a thryloyw, boed gan SAYH neu ein ASP ein hunain. Mae ffigyrau o'r 4 mlynedd diwethaf yn dangos fod gennym 6-8 PIP ar gyfartaledd bob blwyddyn yn cynnwys swyddogion a staff heddlu o rolau ac ardaloedd gwahanol. Mae'r Ffederasiwn ac Unsain yn rhan annatod o'r broses hefyd ac mae ganddynt nifer o staff sydd wedi eu hyfforddi er mwyn cynghori a chynorthwyo eu haelodau yn ystod ac wedi'r broses PIP.

Rwyf yn falch iawn o weld bod y Ffederasiwn ac UNSAIN wedi adnewyddu'r llyfryn gwybodaeth ar gyfer yr aelodau. Rwyf wir yn gobeithio y byddwch yn cymryd yr amser i ddarllen y llyfryn a magu dealltwriaeth sylfaenol ynghylch pam rydych wedi'ch ystyried fel Prif Dyst Heddlu, pam fod angen PIP ac yn bwysicaf oll, eich cyfeirio a'ch cynorthwyo chi drwy'r broses.

**"Oherwydd natur ein gwaith a'r bobl rydym yn ymdrin â nhw fel swyddogion a staff heddlu, mae'n bosib y byddwn ni gyd yn ymwneud â PIP ar rhyw bwynt yn ystod ein gyrfaoedd. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru dîm o 12 Rheolwr Ôl Ddigwyddiadau sy'n darparu rota ar alw 24/7 ar gyfer yr heddlu."**

## Yr Uwcharolygydd Jackie Downes, Pennaeth ASP



Mae gweithredu Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiadau bellach wedi'i osod i arfer plismona ac mae'n parhau i gynorthwyo'r bobl hynny sydd ynghlwm mewn ymchwiliadau lle efallai bydd angen atgyfeirio at SAYH.

Mae'n bwysig fod y broses yn parhau'n dryloyw ar gyfer holl ymchwiliadau annibynnol i ddigwyddiadau difrifol lle mae marwolaeth neu anaf difrifol wedi bod yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Mae Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i annog defnyddio'r broses gan ei bod o'r pwys mwyaf cynorthwyo ein staff sydd ynghlwm mewn digwyddiadau o'r fath. Mae hyn er mwyn sicrhau'r tryloywder angenrheidiol a chynnal hyder cymunedau Gogledd Cymru mewn unrhyw ymchwiliad.

**"Mae'n bwysig fod yn broses yn parhau'n dryloyw ar gyfer holl ymchwiliadau annibynnol i ddigwyddiadau difrifol lle mae marwolaeth neu anaf difrifol wedi bod yn dilyn cyswllt â'r heddlu."**

# Rôl SAYH gan David Ford, Cyfarwyddwr SAYH Cymru



Mae gan SAYH rôl hanfodol i'w chwarae wrth wella hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae creu ymddiriedaeth a hyder gyda'r cyhoedd, ac o fewn cymunedau lleol, yn canolbwyntio'n aml ar sicrhau fod yr heddlu yn atebol am eu gweithrediadau. Pan mae pethau'n mynd o chwith, dylid nodi gwersi ac, yn bwysicach, y gweithredir nhw, er mwyn osgoi achosion tebyg yn codi yn y dyfodol.

Mae marwolaeth neu anaf difrifol unigolyn yn dilyn cyswllt gyda'r heddlu yn peri un o'r heriau mwyaf i hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae felly'n hanfodol fod y ffeithiau ynghylch digwyddiadau o'r fath yn cael eu hymchwilio'n llawn er mwyn gwarchod, a hyd yn oed gwella, hyder y cyhoedd.

Fel SAYH, rydym yn darparu annibyniaeth amlwg i'r achosion mwyaf difrifol, lle mae marwolaeth neu anaf difrifol wedi digwydd.

Pan mae ymchwilwyr SAYH yn ymateb i PIP, byddant yn ceisio cyflwyno eu hunain a'u rôl yn ôl yr arfer. Yn ystod camau cyntaf y PIP, gwnaiff ymchwilwyr gasglu gwybodaeth am y digwyddiad gan y bobl hynny a oedd yn bresennol. Gan ddibynnu ar natur y digwyddiad, gellir gwneud penderfyniad ynghylch a wnaiff SAYH ymchwilio'r mater yn annibynnol cyn, yn ystod neu ar ôl i'r broses PIP ddod i ben.

**"Gan ddibynnu ar natur y digwyddiad, gellir gwneud penderfyniad ynghylch a wnaiff SAYH ymchwilio'r mater yn annibynnol cyn, yn ystod neu ar ôl i'r broses PIP ddod i ben."**

Mae rhannu gwybodaeth a chyfathrebu effeithiol yn hanfodol i lwyddiant PIP. I ddechrau, bydd ymchwilwyr SAYH yn ymgysylltu gyda'r Rheolwr, er mwyn sefydlu'r sefyllfa fel y deallir hi ar hyn o bryd. Bydd y cyfarwyddyd yn cynorthwyo cadarnhau nodi tystion heddlu allweddol. Sicrheir fod camau priodol yn cael eu cymryd yn unol â pholisi ynghylch lles, peidio ymgynghori, gwahanu a'r penderfyniad i ganiatáu gwylio camera corff.

Dylai tystion heddlu wneud popeth a allent er mwyn cofnodi'r digwyddiad, eu gweithrediadau a'u cred onest. Mae adroddiadau llawn, a roddir cyn gynted â phosib, yn cynorthwyo ymchwiliadau SAYH yn fawr. O safbwynt tryloywder a hyder cyhoeddus, mae adroddiadau manwl ac amserol yn cynorthwyo arddangos cydlyniad a didwylledd, yn enwedig i'r rhai hynny o fewn cymunedau lleol sydd efallai wedi'u heffeithio gan y digwyddiad. Dylai'r adroddiadau hyn gael eu manylu'n ddigonol er mwyn hysbysu'r tîm ymchwilio am yr hyn ddigwyddodd.

Bydd achlysuron lle bydd hi'n briodol i unigolyn neu unigolion beidio cymryd rhan yn y PIP. Er enghraifft, gall honiad neu dystiolaeth gychwynnol fynegi fod rhywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau disgyblu. Mewn achosion o'r fath, mae'n bwysig i swyddogion/staff wybod hyn ar y cyfle cyntaf a chael y diogelwch priodol, fel yr amlinellir yn rheoliadau cwynion a chamymddygiad yr heddlu. Safbwynt sylfaenol SAYH ydy bydd swyddogion a staff heddlu sydd ynghlwm mewn digwyddiadau o'r fath yn cael eu trin fel tystion oni bai fod y dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu fel arall.

Buaswn yn gofyn i bob aelod o Heddlu Gogledd Cymru, y mae eu rôl yn gallu arwain atynt i gymryd rhan mewn proses PIP, edrych dros y canllawiau presennol.

# Beth yw Gweithdrefn Ôl-Ddigwyddiad?

Mae Gweithdrefn Ôl-Ddigwyddiad (PIP) yn cyfeirio at y prosesau sy'n cael eu dilyn ymhob sefyllfa yn dilyn cyswllt â'r heddlu lle mae:

- **Marwolaeth / anaf difrifol wedi digwydd**
- **Methiannau mewn rheoli wedi digwydd**
- **Perygl wedi'i achosi i swyddogion neu'r cyhoedd**

Ei ddiben ydy sicrhau er budd y cyhoedd, yr heddlu a phawb arall sy'n rhan o'r digwyddiad fod y gweithdrefnau dilynol yn agored ac yn dryloyw ac yn dangos uniondeb pob gweithgarwch.

Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer gweithdrefnau ôl-ddigwyddiadau yn fater i'r prif swyddog neu'r uwch swyddog (nad yw wedi bod yn rhan o'r cyfnod gweithredol) sydd wedyn yn gyfrifol am weithredu'r ymchwiliad ar ôl y digwyddiad a'r rheoli ar ôl y digwyddiad.

Bydd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad Heddlu (IOPC) yn cael gwybod fel y gall penderfyniad gael ei wneud ar p'un ai ydy'r digwyddiad yn ateb y meini prawf ar gyfer ymchwiliad ôl-ddigwyddiad. Os oes ymchwiliad annibynnol, bydd y wybodaeth a roddir i SAYH yn cynnwys y gweithredu a gwneir trefniadau er mwyn dechrau ymchwiliad ôl-ddigwyddiad. Gall digwyddiadau nad ydynt yn gofyn am ymchwiliad gan SAYH gael eu hymchwilio gan Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu, yn unol â gweithdrefnau lleol.

Ar y tudalennau canlynol fe welwch fwy o fanylion am y Weithdrefn Ôl-Ddigwyddiadau, a ddilynir gan adroddiadau personol gan swyddogion a staff sydd wedi bod drwy'r broses.

Fel swyddog neu staff sy'n ymwneud â PIP, mae'n bosib y byddwch yn cael eich ystyried yn Dyst Heddlu. Tyst Heddlu Allweddol ydy unrhyw swyddog a/neu staff heddlu sy'n gallu rhoi tystiolaeth uniongyrchol o'r amgylchiadau sy'n arwain at y digwyddiad a ddechreuodd y PIP.

Os ydych yn rhan o PIP rydych yn dyst. Dylech gael cyngor ar unwaith oddi wrth Gynrychiolydd o'r Ffederasiwn neu UNSAIN. Serch hynny, y protocol arferol ydy y bydd y cymdeithasau staff yn cael gwybod gan y Rheolwr, felly dylai cynrychiolydd o'r Ffederasiwn neu UNSAIN fod yn bresennol gyda chi yn ystod y broses.

- **Ni allwch gael eich trin fel tyst a rhywun o dan amheuaeth. Os oes gofyn i chi ddarparu dillad neu samplau personol, ceisiwch eglurder o ran eich statws.**
- **Dylai datganiadau cychwynnol ond cael eu gwneud ar ôl i chi gymryd cyngor meddygol a chyfreithiol. Bydd eich cynrychiolydd Ffederasiwn neu UNSAIN yn gallu eich cynghori ar y materion hyn.**
- **Mae eich lles yn hollbwysig ac mae gan y Rheolwr Ôl-Ddigwyddiadau gyfrifoldeb sicrhau bod gennych fynediad at gyngor meddygol a chyfreithiol priodol.**

# Mae pedwar cam mewn PIP

## Cam 1 - Adroddiad am y sefyllfa

Dylai hyn fod yn ddigon i hysbysu pobl eraill a fydd yn rheoli'r digwyddiad parhaus ac i chi chwilio am gymorth, fel arfer o'r fan a'r lle.

## Cam 2 - Ffeithiau sylfaenol y Rheolwr Ôl-Ddigwyddiad

Os yw'n bosibl, dylai'r wybodaeth yma ddod o ffynhonnell ar wahân i'r prif dystion sydd wedi cymryd rhan uniongyrchol. Mae ffeithiau sylfaenol y Rheolwr yn cael ei ddarparu yn y lleoliad PIP enwebedig gan rywun sy'n gallu ac yn fodlon darparu'r manylion. Gall hyn fod yn unol â chyngor cyfreithiol lle bo'n briodol a gall fod mewn fformat ysgrifenedig neu eiriol.

## Cam 3 - Adroddiad cychwynnol unigol (PIA)

Mae'r cyfrif hwn yn cael ei ddarparu gennych chi. Mae gennych hawl cael cyngor cyfreithiol a meddygol a dylai gael ei ddarparu cyn i chi fynd oddi ar ddyletswydd. Dylai gynnwys:

- **Pwy ydych chi'n llawn (ffugenw os yn berthnasol)**
- **Eich dealltwriaeth o'r gweithrediad**
- **Eich rôl yn y gweithrediad**
- **Manylion hanfodol o'r grym a ddefnyddiwyd o'r hyn rydych yn ei gofio**
- **Eich cred onest a arweiniodd at unrhyw ddefnydd o rym.**

Deunydd cyfeirnod

- **Gall hyn gynnwys camera corff (BWV)**
- **Cofnodion Digwyddiadau**
- **Nodiadau a wnaed yn y fan a'r lle neu yn ystod y digwyddiad**
- **Cofnodion rheoli.**

Mae gan y Rheolwr gyfrifoldeb am benderfynu os gallwch gyfeirio at eitem o ddeunydd atgyfeirio wrth ddarparu adroddiad cychwynnol unigol. Byddant yn gwneud y penderfyniad mewn ymgynghoriad gyda SAYH.

Mae'n bosib y ceir amgylchiadau lle mae gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd wedi cael ei gadw mewn deunydd a'r hyn yr ydych wedi ei gofnodi a'i adrodd. Gall y gwahaniaeth fod yn ddealladwy a'i egluro yn y cyfrif manwl (gweler cam 4 isod) ar ôl i chi weld y deunydd perthnasol.

Does dim cyfyngiad cyfreithiol ar dyst allweddol i weld eu tystiolaeth camera corff eu hunain cyn gwneud eu hadroddiad. Gall edrych ar dystiolaeth cyn cwblhau'r adroddiad gael effaith ar ddirnadaeth ac atgof yr unigolyn o ddigwyddiadau.

Mae'n bosib y byddai'n briodol i chi edrych ar neu wrando ar fathau o ddeunydd fel cofnodi-on, tystiolaeth sain neu nodiadau ysgrifenedig cyfredol, cyn rhoi adroddiad. Gall deunydd o'r fath gynnwys cadw gwybodaeth sy'n eich cynorthwyo chi gofio digwyddiad yn fanwl a gwybodaeth hanfodol a gofnodwyd gennych yn ystod y digwyddiad.

Mae eich hawl i gael cyngor cyfreithiol wedi ei osod yng nghanllawiau'r CCPSH.

## Cam 4 - Cofnod Manwl

Fel arfer nid yw'r cofnodion hyn yn cael eu caffael ar unwaith ond maent yn cael eu gadael hyd nes yr ydych yn gallu cyfleu eich profiad mewn modd rhesymegol. Fel arfer, digwyddir hyn o leiaf 48 awr ar ôl Cam 3. Yr adroddiad hwn yw eich atgof llawn o'r digwyddiad a dylai gynnwys unrhyw gyfeiriad at Fideo Camera Corff, cofnodion digwyddiad, nodiadau gwreid-diol, cofnodion gorchymyn, ayb. Os oes unrhyw wahaniaeth rhwng yr hyn a wnaethoch gofio yn eich adroddiad yn wreiddiol a'r hyn sydd wedi ei gofnodi gan gamera corff, gallwch egluro'r anghysondeb yn yr adroddiad manwl hwn.

Trefnir cynrychiolaeth gyfreithiol ar eich cyfer gan Ffederasiwn yr Heddlu neu UNSAIN yn ystod camau 3 a 4.



# Richard Black, Cyfreithiwr Ymgynghorol gyda Burton Copeland LLP.



## Pam mae angen cynrychiolaeth gyfreithiol arnoch.

Derbyniwyd Richard fel cyfreithiwr yn 1993 ac mae ganddo dros 22 mlynedd o brofiad o gynghori swyddogion heddlu o ran camymddygiad ac ymchwiliadau ac achosion troseddol a chrwnerol.

Yn Burton Copeland mae gennym brofiad helaeth o gynghori swyddogion heddlu ledled Cymru a Lloegr o ran Gweithdrefnau Ôl-Ddigwyddiadau ers y dechrau. Yn wreiddiol roeddent wedi eu cyfyngu i achosion o saethu a hyd yn oed rŵan yn y rhan fwyaf o heddluoedd, dim ond swyddogion drylliau tanio sydd â mewnbwn a hyfforddiant penodol yn y broses. Gan fod PIP erbyn hyn wedi ymestyn i gynnwys pob math o farwolaethau neu anafiadau difrifol yn dilyn cysylltiad â'r heddlu, rydych yn fwy tebygol o fod mewn PIP nag un o'r swyddogion drylliau tanio. Mae felly'n hanfodol eich bod yn derbyn y cyngor cyfreithiol cywir ar y cyfle cyntaf. Rydym yn hollol annibynnol o SAYH, yr Heddlu a hyd yn oed y Ffederasiwn / UNSAIN. Rydym yn cynnig gwasanaeth galw 24/7 ac wedi cael yr alwad, bydd un o'n cyfreithwyr profiadol yn dod i'r Swît PIP er mwyn cynnig cyngor cyfrinachol i chi ar unwaith.

Bydd y rhan fwyaf ohonoch ond wedi ymwneud â chyfreithwyr "ar ochr arall y bwrdd" a gall cael eich cynrychioli gan gyfreithiwr o dan unrhyw amgylchiadau fod yn brofiad newydd ac annisgwyl i chi. Dyma'r cwestiynau y clywn fel arfer a dyma ein hymateb iddyn nhw:

## "Dw i ddim wedi gwneud dim byd o'i le. Pam mae angen cyfreithiwr arna i?"

Pan elwir PIP am y tro cyntaf gwneir penderfyniad os yw swyddog/aelod staff yn cael eu trin fel rhywun o dan amheuaeth neu "dyst heddlu allweddol". Dyma un o'r pethau cyntaf mae ein cyfreithwyr yn gofyn i'w gadarnhau wrth gyrraedd PIP. Er bod hyn yn annhebygol os byddwch yn cael eich trin fel rhywun o dan amheuaeth, ni fyddwch yn cymryd rhan yn y weithdrefn ac fe gewch holl hawliau a breintiau rhywun o dan amheuaeth a byddwn yn eich cynghori chi a'ch cynrychioli'n briodol. Fel arall, byddwch yn cael eich trin fel tyst heddlu allweddol. Mae'n hanfodol felly eich bod chi'n derbyn cyngor annibynnol cyn cymryd rhan yn y broses a ddylai sicrhau os nad ydych wedi gwneud unrhyw beth o'i le bod y safle hwnnw wedi ei warchod.

## Pam ddylwn i gytuno cymryd rhan?

Ymchwiliad cynnar wedi ei reoli ydy'r weithdrefn PIP. Bydd disgwyl i chi roi tystiolaeth gymharol fyr i gynorthwyo'r SAYH neu'r Heddlu er mwyn creu llun pwy oedd yn rhan o'r peth ac ym mha ffordd. Byddwn wrth law er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad annibynnol o'r cam cynnar hanfodol a drwy gydol y broses. Bydd eich tystiolaeth fwy manwl yn cael ei chymryd yn y dyddiau nesaf a byddwch yn derbyn cyngor oddi wrthym ni bryd hynny hefyd. Bydd methu cymryd rhan yn cael ei weld yn negyddol gan SAYH, yr Heddlu a'r Crwner (mewn achos o farwolaeth), yn ogystal â'r sifiliaid sy'n rhan o'r digwyddiad a'u teuluoedd. Ein rôl yw sicrhau nad yw eich statws fel tyst yn cael ei newid a lleihau'r perygl o feirniadaeth andwyol. Yn achos marwolaethau, gall cwestau weithiau fod flynyddoedd ar ôl y PIP, felly mae'n angenrheidiol cael pethau'n iawn yn gynnar.



## Faint fydd hyn yn ei gostio i mi?

Ar yr amod eich bod yn aelod o'r Ffederasiwn neu UNSAIN, mae'r gwasanaeth yn hollol rhad ac am ddim. Nid oes rhaid i chi lenwi ffurflen gais (er efallai y bydd yn rhaid i chi arwyddo ffurflen).

## A allaf ddefnyddio fy nghyfreithiwr fy hun?

Mae'n annhebygol iawn y bydd gan eich cyfreithiwr lleol y wybodaeth a'r profiad er mwyn â PIP. Maent hefyd yn annhebygol o fod â pherthynas broffesiynol gyda'r Ffederasiwn neu UNSAIN. Byddai'n rhaid i chi dalu am gost y cyngor a'r gynrychiolaeth eich hun.

## Beth os oes gwrthdaro buddiannau?

Mae pob cyfreithiwr yn ymwybodol iawn o'u goblygiadau proffesiynol ac os oes gwrthdaro buddiannau yn codi, bydd hyn yn cael ei nodi a bydd gofyn i gyfreithiwr gwrthdaro swyddogol fod yn bresennol.

# LLINELL GYMORTH GYFREITHIOL GWEITHDREFNAU ÔL-DDIGWYDDIAD (PIP) UNSAIN

UNISON
*the public service union*



Os ydych yn rhan o weithdrefn:

- Ffoniwch ein llinell gymorth PIP gyfreithiol 24 awr ar 0808 164 9332
- Hysbyswch y cynrychiolydd UNSAIN lleol yn eich heddlu sydd ag ardystiad PIP
- Peidiwch â gwneud unrhyw ddatganiadau, neu drosglwyddo unrhyw eitem bersonol, cyn cael cyngor cyfreithiol drwy'r llinell gymorth ac mae eich cynrychiolydd UNSAIN wedi cyrraedd

Mae'r gwasanaeth hwn ond ar gael i aelodau UNSAIN mewn heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn cael mynediad at y gwasanaeth hwn, rhaid i chi fod yn aelod o UNSAIN am o leiaf pedair wythnos cyn y digwyddiad.

- Siaradwch â'ch cynrychiolydd UNSAIN lleol am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch eich bod bob amser â cherdyn PIP UNSAIN gyda chi yn y gwaith.

**Eich cynrychiolwyr UNSAIN ardystiedig PIP yn yr heddlu hwn ydy**

Am fwy o wybodaeth neu fanylion am gynrychiolwyr UNSAIN achrededig PIP, cysylltwch â Liz Mitchell ar **elizabeth.mitchell@northwales.police.uk**

**Tair ffordd syml o ymuno ag UNSAIN heddiw:**

Ymunwch ar-lein ar **joinunison.org**

Ffoniwch ni ar **0800 171 2193**

Gofynnwch i'ch cynrychiolydd **UNSAIN** am ffurflen gais

# Lles

Eich lles yw'r agwedd mwyaf pwysig o PIP. Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd eich profiad o PIP a'r digwyddiad cysylltiedig yn cael effaith ar eich lles. Mae llawer o gymorth ar gael i swyddogion a staff. Bydd cynrychiolydd o'r Ffederasiwn/UNSAIN gyda chi drwy gydol y broses er mwyn rhoi cymorth.

Mae'n bosib y byddwch yn profi nifer o emosiynau mewn ymateb i'r digwyddiad. Mae ymateb fel hyn yn arferol.

Gall symptomau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Galar,
- Anghofio,
- Ysgwyd,
- Crio,
- Dicter,
- Pryder,
- Ymbellhau,
- Methu â chanolbwyntio
- Hwyliau oriog



Gall dyddiadau arwyddocaol i'r PIP, bod yn bresennol mewn cwest, y llys, ayyb, hefyd effeithio ar eich lles.

Os ydych yn gweld gwahaniaeth i'r arfer yn eich ymddygiad, chwiliwch am gymorth gan weithwyr meddygol proffesiynol a siaradwch ag uned iechyd galwedigaethol yr heddlu (OHU).

Gallwch gael manylion sefydliadau a all roi cymorth i chi gan eich cynrychiolydd Ffederasiwn neu UNSAIN neu ar wefan y Ffederasiwn www.polfed.org/northwales/member-services/welfare/ neu https://northwalespoliceandjustice.unison.site/ a www.unison.org.uk/get-help/services-support. Os ydych yn cyfrannu i Ganolfannau Triniaeth yr Heddlu (PTC) a/neu'r Gronfa Les, gallwn hefyd gynorthwyo gydag atgyfeiriadau i'w Rhaglenni Lles.

Mae gwefan Cymorth Meddwl Iach HGC hefyd yn cynnwys manylion llawn cymorth mewnol ac allanol ar gyfer eich lles: http://intranet.nwp.net/busserv/hr/SitePages/Healthy%20Mind.aspx

# Profiad Ôl-Ddigwyddiad

SWYDDOG 1

## Cefndir byr ynglŷn â pham cafodd PIP ei weithredu.

2 funud cyn diwedd y sifft am hanner nos, hysbyswyd bod cerbyd wedi cael ei ddwyn yn ardal Capel Curig ac yn mynd i gyfeiriad Betws y Coed ac yna tuag at Ddolwyddelan. Canfuwyd y cerbyd yn ddiweddarach ar yr A470 a dechreuwyd ei ddilyn.

Aeth yr ymlid yn dda yn unol â'r polisi ymlid. Dilynwyd y cerbyd i Flaenau Ffestiniog gan ddod i ben yn Nolwyddelan. Ar gyrion Dolwyddelan ataliwyd y cerbyd drwy ddefnyddio HOSTYDS gan swyddog o Lanrwst. Roedd y cerbyd yn arafu erbyn hyn oherwydd twll yn y teiar blaen. Yna er mawr syndod i ni, penderfynodd y teithiwr yn y sedd flaen neidio o'r cerbyd wrth iddo deithio am 30 milltir yr awr.

Daethpwyd â'r cerbyd i stop ychydig yn ddiweddarach ac arestiwyd y gyrrwr. Cafodd y teithiwr anafiadau difrifol i'w ben a'i ymennydd o ganlyniad i neidio o'r cerbyd.

## Beth oeddech chi'n gwybod am PIP cyn y digwyddiad?

I fod yn onest, yr unig beth ro'n i'n gwybod cyn y digwyddiad oedd bod PIP yn bodoli, gan iddo gael ei grybwyll yn fy nghwrs Taser cyntaf, ond doeddwn i ddim yn gwybod yn union beth oedd cynnwys PIP.

## Beth oeddech chi yn ddisgwyl?

Do'n i ddim wir yn gwybod beth i'w ddisgwyl i ddechrau. O nabod y natur ddynol a'm profiad o fod yn swyddog heddlu am 23+ mlynedd ro'n i'n disgwyl y gwaethaf. Achos o fod o dan y chwyddwydr am bopeth a wnaethon ni. Mae llawer o wybodaeth wedi bod yn mynd o gwmpas am ddilyn cerbydau gan yr heddlu a'r warchodaeth/diffyg gwarchodaeth i swyddogion ar ôl ymlid cerbyd.

## Sut yr oeddech yn teimlo cyn i'r broses ddechrau?

Yn gyntaf fy mhrif bryder oedd am y gŵr oedd wedi ei anafu ac roeddwn wedi fy ysgwyd ar ôl gweld yr hyn oedd newydd ddigwydd o'n blaenau.

Cyn gynted ag yr oedd y sefyllfa o dan reolaeth sylweddolais yr hyn oedd wedi digwydd, er yn fy marn i roeddem wedi dilyn y cerbyd yn ôl y rheolau yn gywir. Gan fy mod i'n dipyn o sinig ro'n i'n ofni'r gwaethaf ac y byddwn o dan ymchwiliad am fisoedd.

## Beth ddigwyddodd?

Wedi i'r sefyllfa dawelu ac i'r swyddogion eraill gyrraedd i fy helpu, cefais wybod gan Brif Swyddog Ymchwilio'r Uned Plismona Ffyrdd bod PIP yn mynd i gael ei gyhoeddi. Yna, dwi'n cofio clywed neges dros y radio gan y pennaeth efydd ar y pryd yn dweud beth oedd yn mynd i ddigwydd. Ro'n i'n teimlo'n ansicr beth oedd yn mynd ymlaen ar y pryd. Wrth i'ch meddwl fynd ar ras wyllt, rydych yn clywed ychydig o'r ôl-drafod ond yn pigo gwybodaeth nad ydym fod i drafod yn ymwneud â'r digwyddiad. Roeddem i gael ein recordio ar gamera corff bob amser, a'r rhan mwyaf dryslyd oedd ein bod ni fod i deithio cryn bellter i'r hen faes awyr a oedd yn cael ei ddefnyddio fel ystafell PIP.

I ddechrau ro'n i'n teimlo'n rhwystredig am hyn gan ein bod yn teithio yn oriau mân y bore, yn gyrru milltiroedd i ffwrdd o'n gorsaf ni.

Wrth gyrraedd y maes awyr daeth hi'n glir pam roeddem ni mewn maes awyr ymhell oddi wrth bawb.

Yno i gwrdd â ni roedd Rheolwyr Ôl-Ddigwyddiad (PIM), yn ogystal â'r rhai o'r ystafell reoli a Rheolwr Digwyddiadau'r Heddlu. Cawsom gyfarwyddyd llawn a gofynnwyd eto i ni beidio â thrafod y digwyddiad gyda'n gilydd. Cawsom ein sicrhau sawl tro ein bod ni'n cael ein trin fel tystion a dim arall, h.y. troseddwyr.

Serch hynny, mae eich meddwl yn dechrau rhedeg yn wyllt pan gewch wybod, r an am 3.30am bod cynrychiolwyr Ffederasiwn yr Heddlu yn dod ar gyfer y swyddogion a chynrychiolwyr UNSAIN ar gyfer y staff sifil. Mae cyfreithwyr hefyd wedi cael eu galw ar gyfer y swyddogion a staff. Roeddem hefyd yn ymwybodol bod SAYH wedi cael gwybod ac yn bresennol.

Er ein bod ni wedi cael ein sicrhau nad oeddem wedi gwneud dim o'i le, ro'n i'n gofyn i fy hun 'Os ydy popeth yn iawn, yna pam mae'r holl bobl yma'n dod allan yng nghanol y nos?"

Daeth y cynrychiolwyr i gyd ac unwaith eto rhoddwyd sicrwydd bod popeth yn iawn.

Cyrhaeddodd SAYH i dawelwch oeraidd. Roeddem ni, fel swyddogion yn gwrthod siarad.

Wedi i'r cyfreithwyr gyrraedd aethon ni drwy'r broses yn fwy manwl a chawsom gymorth rhoi tystiolaeth ysgrifenedig am y tro cyntaf am yr hyn a ddigwyddodd.

Erbyn hyn gwnaethom sylweddoli ein bod yn cael gofal. Darparwyd bwyd, diod a thrafnidiaeth er mwyn ateb gofynion y staff i gyd.

Rhoddwyd cyngor i ni gael seibiant llwyr o'r gwaith am 48 awr cyn i ni gwblhau ein datganiadau terfynol.

Gwnaed trefniadau i fynd i swyddfeydd Ffederasiwn yr Heddlu ychydig ddyddiau yn ddiweddarach er mwyn cwrdd â'r cyfreithiwr a chwblhau ein datganiadau.

Yn ystod y cyfnod hwn i ffwrdd o'r gwaith bu'r Rheolwr Ôl-Ddigwyddiad yn cysylltu â ni yn ein diweddaru am yr hyn a oedd yn mynd ymlaen gyda'r digwyddiad. Cysylltodd yr uwch dîm reoli â ni hefyd yn cynnwys y Prif Gwnstabl.

Wrth fynd i swyddfeydd y Ffederasiwn cawsom ein briffio eto ac mi wnaethon ni gwblhau ein datganiadau, gan edrych ar dystiolaeth fideo yn ymwneud â'r digwyddiad o dan oruchwyliaeth.

## Sut roeddech yn teimlo wedi hynny?

Yn dilyn y PIP, gallaf ddweud yn onest mai dyma'r cymorth mwyaf rwyf wedi derbyn erioed, yn dilyn profiad eithaf trawmatig.

Cefais fy siomi ar yr ochr orau bod y sefydliad wedi rhoi cymaint o gymorth i bawb.

## Beth ydych chi'n feddwl o'r Broses Ôl-Ddigwyddiad rŵan?

Ar ôl mynd drwy'r broses gan ddeall y camau yn llawn erbyn hyn a pham mae'n rhaid gwneud hyn yn y ffordd yma, credaf ei fod yn ffordd werthfawr ac effeithiol o edrych ar ôl swyddogion a staff.

## Beth fuasech chi'n ddweud wrth gydweithiwr y dylent wybod am PIP?

Byddwn yn cynghori unrhyw swyddog neu staff i ymddiried yn y system hon. Mae yna i'ch cynorthwyo chi, eich arwain chi a'ch gwarchod chi drwy gyfnod anodd.

# Profiad Ôl-Ddigwyddiad

SWYDDOG 2

## Cefndir byr yngl n â pham cafodd PIP ei weithredu.

Ar ôl y digwyddiad, derbyniais alwad ffôn oddi wrth Reolwr Digwyddiadau'r Heddlu. Eglurwyd bod y broses (PIP) i'w weithredu a rhoddwyd disgrifiad o'r broses. Yn fyr, cefais wybod ein bod yn mynd i gael ein cludo i Llai i'r ystafell bwrpasol ar gyfer PIP.

## Beth oeddech chi'n gwybod am PIP cyn y digwyddiad?

Cyn y digwyddiad o dan sylw doedd gen i ddim gwybodaeth o'r broses PIP.

## Beth oeddech chi yn ddisgwyl?

O'r disgrifiad a dderbyniais ro'n i o dan yr argraff y byddem yn gorfod cael ein cadw ar ein pennau'n hunain ar gyfer pwrpasau tystiolaeth.

## Sut yr oeddech yn teimlo cyn i'r broses ddechrau?

Ar ôl y ffurfioldebau cychwynnol a'r sôn am gynrychiolaeth gyfreithiol, dechreuais deimlo'n anesmwyth ac yn ynysig. Er fy mod yn gyfforddus gyda fy ymddygiad drwy gydol y digwyddiad, gan glywed nifer o weithiau nad oedd "dim i'w boeni amdano", ro'n i'n teimlo bod fy ngweithrediadau yn mynd i gael eu craffu arnynt yn fanwl iawn. Roedd yna deimlad bod y broses wedi cymryd drosodd ac ein bod ni yn ei chanol hi.

## Beth ddigwyddodd?

Daeth dau Brif Arolygydd i gwrdd â ni i egluro'r broses a'i weithredu. Gofynnwyd i mi beidio â thrafod y peth o'r cychwyn. O'r disgrifiad a dderbyniais ro'n i o dan yr argraff y byddem yn gorfod cael ein cadw ar ein pennau'n hunain at ddibenion tystiolaeth.

Wrth gyrraedd Llai, aethom i mewn i'r ystafell PIP i aros i'r Prif Arolygyddion gyrraedd. I ddechrau mi wnaethon ni aros gyda dau swyddog o CID. Ni ofynnwyd cwestiynau i ni ac mi gawson ni gynnig diod. Ar ôl i'r Prif Arolygydd gyrraedd aethom i mewn i swyddfa. Yna ddarllenodd y Prif Arolygydd drwy'r polisi a gweithdrefn gan gynnig cefnogaeth. Ar y pwynt yma cawsom wybod bod SAYH yn rhan o'r peth ac ein bod yn mynd i gael cefnogaeth o'r Ffederasiwn ynghyd â chynrychiolaeth gyfreithiol. Cawsom wybod eto na ddylem drafod y mater. Erbyn diwedd y cyflwyniad daeth yr ail Brif Arolygydd. Roeddent yn gefnogol ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir.

Dros yr awr nesaf daeth dau gynrychiolydd o'r Ffederasiwn a chyflwyno eu hunain. Doedd dim amheuaeth gen i mai ein lles ni oedd eu blaenoriaeth. Cawsom ymweld â chantîn yr orsaf i brynu bwyd a diod. Cawsom ein tywys gan Brif Arolygydd i sicrhau nad oeddem yn trafod y mater. Wrth wneud hyn mi wnaethon ni weld ein tîm yn y brif fynedfa.

Roedd hi'n rhyddhad mawr i'w gweld am rhyw reswm. Siaradom yn hamddenol ac mi wnaethon nhw holi am ein lles. Ni wnaethom ni drafod y mater. Roedd yr awyrgylch yn gyfeillgar ac roeddent yn deall yr angen am gyfrinachedd.

Ar ôl i ni gyrraedd yr ystafell PIP mi wnaethon ni siarad ymysg ein gilydd wrth i ni aros i arbenigwr PIP gyrraedd o "Slater & Gordon". Wrth i amser fynd heibio ro'n i'n teimlo'n fwy cyfforddus a diflannodd y teimlad o fod yn ynysig.

Cyrhaeddodd cynrychiolydd o "Slater & Gordon". Roedd gan y cyfreithiwr bresenoldeb hyderus a gwnaeth ei wybodaeth glir o'r broses PIP dawelu fy meddwl. Yn dilyn cyflwyniadau, rhoddodd fanylion clir am y broses PIP. Eglurodd ei hanfod a'i werth a'i fod yn darparu lefel o dryloywder oedd yn anodd ei ddadlau yn ei erbyn. Roedd ei arbenigedd a'i brofiad yn amlwg.

Y cam cyntaf yn y broses oedd cynnig tystiolaeth gyntaf. Rhoddwyd hyn ar ffurf datganiad ar sail un i un, yn union fel tasech chi'n gwneud fel swyddog mewn lleoliad digwyddiad. Serch hynny dyna'r unig debygrwydd. Ar gyngor cyfreithiwr, roedd y dystiolaeth gyntaf i fod yn fyr iawn. Un paragraff yn unig oedd y dystiolaeth yn rhoi gwybodaeth am fy nyletswyddau a disgrifiad byr o'r digwyddiadau. I swyddog heddlu roedd hyn yn annaturiol ac roedd hi'n anodd gan ei bod hi'n ymddangos yn annormal a ddim yn gweddu i ddigwyddiad o'r fath. Serch hynny, dilynais ei gyngor a rhoi tystiolaeth fer.

Ar ôl i ni gwblhau'r dystiolaeth gyntaf arhosom yn y swyddfa hyd nes i SAYH gyrraedd. Roeddent yn teithio o Gaerdydd ac wedi cael eu dal yn ôl. Yn ystod yr oedi dysgais fod SAYH yn cynnwys unigolion o bob galwedigaeth ac ychydig iawn ohonynt sy'n dod o gefndir ymchwilio. Wrth iddynt gyrraedd cyflwynodd y ddau eu hunain yn y swyddfa gan roi braslun o'u swyddi. Unwaith eto dywedwyd wrthym nad oedd "dim i boeni". Mi wnaethon nhw gymryd ein tystiolaeth gyntaf a gadael. Gwnaed trefniadau ar gyfer dyddiad ac amser addas i roi'r ail ddatganiad. Roedd yr ail ddatganiad yn un manwl iawn a bu cynrychiolydd o "Slater & Gordon" yn craffu arno. Cawsom gyngor y byddai hyn yn cymryd sifft gyfan. Awgrymodd y Prif Arolygyddion i ni gymryd diwrnod neu ddau i ffwrdd er mwyn ymlacio. Rhoddwyd cyngor i ni unwaith eto i beidio â thrafod y digwyddiad gyda'n gilydd ac y dylem gymryd cyfle i brosesu'r digwyddiad. Cytunwyd ar ddyddiad ar gyfer yr ail ddatganiad a chawsom rif ffôn personol y Prif Arolygydd cyn gadael. Gwnaethpwyd yn glir i ni y gallwn ffonio unrhyw bryd ac mai ein lles ni oedd eu blaenoriaeth. Y noson honno pan oeddwn i gartref derbyniais alwad ffôn gan y Prif Gwnstabl, roedd yn gefnogol a gofynnodd sut oeddwn i.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach mi wnaethon ni gwrdd yn adeilad y Ffederasiwn er mwyn llunio ail ddatganiad. Yna treuliais y diwrnod cyfan yn ysgrifennu datganiad manwl. Wedi ei gwblhau darllenodd y cyfreithiwr drwy'r adroddiad. Gwnaed ychydig o newidiadau ac yna cafodd ei gyflwyno. Cawsom wybod y byddai'r mater nawr yn cael ei drosglwyddo i SAYH ac y gall y broses hon gymryd hyd at chwe mis cyn cael diweddglo.

Daeth y mater i ben ac ni chodwyd unrhyw ofidion am fy/ein gweithredoedd a phenderfynwyd peidio â gweithredu ymhellach. Drwy gydol y broses cefais wybod am bopeth ac roeddwn yn ymwybodol o'r pwynt cyswllt, tasai angen unrhyw beth arna i.

## Beth ydych chi'n feddwl o'r Broses Ôl-Ddigwyddiad rŵan?

Gan fy mod yn hapus gyda fy ymddygiad yn ystod y digwyddiad o dan sylw a fy natganiad ysgrifenedig roeddwn i'n meddwl bod y broses PIP yn ddiffwdan. Rwyf yn deall yr angen am y broses ac yn cefnogi'r syniad ei fod yn fanteisiol i'r swyddog/swyddogion sy'n rhan ohono. Roedd y broses ar y diwrnod yn ymddangos yn drefnus a strwythuredig. Roedd y Prif Arolygyddion yn gefnogol ac yn egluro eu rôl a'r broses PIP yn glir ac yn gryno. Roedd cynrychiolwyr y Ffederasiwn yn bresennol drwy gydol y broses ac mi wnaethon nhw gynnig cymorth a chyngor. Serch hynny, y cyfreithwyr o "Slater & Gordon" oedd yn creu yr argraff orau. Roeddent yn amlwg yn brofiadol iawn ac yn hollol gyfarwydd â'r broses PIP ac roedd pawb yn troi atynt ar gyfer arweiniad cyfreithiol.

# Adborth gan aelodau staff sydd wedi bod drwy'r broses PIP

## Staff yr Heddlu 1

"Yn dilyn ymlid, gofynnwyd i mi allgofnodi a dywedwyd wrthyf fy mod yn mynd i ystafell PIP ac fe'm hysbyswyd i beidio siarad â neb. Roedd UNSAIN yn yr ystafell, ac fe wnaethant dawelu fy meddwl yn syth. Fe wnaethant sicrhau fy mod wedi bwyta ac yfed rhywbeth a gwnaethant wirio faint roeddwn wedi bod ar ddyletswydd. Gwnaethant ofyn a oeddwn eisiau ffonio adref. Eglurodd y Rheolwr Ôl-Ddigwyddiadau y broses ac fe gysylltodd UNSAIN â Thompsons Solictiors ar fy rhan. Daeth UNSAIN gyda mi, ynghyd â'r cyfreithiwr, er mwyn cofnodi fy natganiad llawn. Fe ddiweddarodd UNSAIN fi ar yr ymchwiliad gan gadw llygad ar fy lles yn rheolaidd".

## Staff yr Heddlu 2

"Roedd fy nghydweithiwr a minnau yn gysylltiedig â digwyddiad a oedd yn peri gofid mawr. Ni allwn ddiolch digon i'r cynrychiolydd UNSAIN a ddaeth am bopeth a wnaethant. Roeddem yn emosiynol iawn. Fe wnaethant drefnu popeth a gofalu amdanom ni am fisoedd wedyn."

"Dwi'n aml yn meddwl yn ôl i gael ei galw i'r Ystafell PIP a meddwl beth fuaswn wedi'i wneud pe na bawn i'n aelod o UNSAIN? Da ni bob amser yn tueddu meddwl fod y pethau hyn i Swyddogion Heddlu'n unig. Mae'n bwysig fod Staff Heddlu yn ymwybodol eu bod yn gallu cael eu galw i PIP hefyd."

# Rhestr o dermau cyffredin

## Ymgynghori

Dylech gael eich atgoffa i ymgynghori cyn gwneud datganiad. Nid oes dim i atal swyddogion rhag trosglwyddo gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch i eraill sy'n rhan o reoli parhaus y digwyddiad neu'r weithred. Dylid cadw cofnod o'r hyn rydych wedi ei drosglwyddo. Mae'n bwysig bod eich tystiolaeth eich hun yn gywir ac mae eich datganiadau CHI yw eich datganiadau chi.

## Anhysbysrwydd

Mae'n bosib y cewch chi gyngor i wneud eich datganiadau o dan ffugenw. Mae hyn er mwyn diogelu'r bobl hynny sy'n cymryd rhan ond mae'n bosib na fydd yn cael ei gadw yn y dyfodol neu mewn gweithdrefnau cyfreithiol/camymddwyn. Dylech ymdrechu lleihau eich proffil eich hun, yn enwedig os ydych yn defnyddio ffugenw a bod yn ofalus o ran cyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu gysylltiadau a allai eich enwi neu bobl eraill sy'n rhan o'r digwyddiad.

## Gwahanu

Mae'n bosib y bydd trafodaethau yngl n â gwahanu a chadw chi neu eich cydweithwyr ar wahân yn ystod y PIP. Dylai gwahanu ond digwydd ar ôl ymgynghoriad â'r Rheolwr Ôl-Ddigwyddiad. Os ydy gwahanu'n digwydd, efallai y byddwch yn cael eich ystyried yn rhywun o dan amheuaeth. Nid yw o reidrwydd yn golygu y byddwch yn cael eich arestio. Serch hynny mae'n bosib y gall cyfweliad Camymddygiad neu PACE (1984) ddilyn.

## Digwyddiadau ar ôl PIP

Yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad, gall Cwest neu Achos Llys ddigwydd. Yn dilyn unrhyw PIP, bydd yr Asiantaeth Ymchwilio Annibynnol perthnasol (fel arfer SAYH) yn llunio adroddiad. Gall gweithdrefnau gymryd amser hir i ddod i derfyn a gall effeithio'r bobl hynny sy'n rhan ohono i raddau amrywiol. Dylech gael eich diweddaru yn rheolaidd a chael gwybod am y digwyddiad. Gall olygu nad ydych yn cael eich cadw'n weithredol ac yn gorfod gwneud dyletswyddau eraill.

# Nodiadau

# Nodiadau

## Cysylltwch â ni:

Dewch o hyd i'ch cynrychiolydd Ffederasiwn lleol
**www.polfed.org/northwales/about-us/meet-the-team/**

Swyddfa'r Ffederasiwn: Ffôn: **01492 805400**

E-bost: **fedadmin@northwales.police.uk**

Facebook: **@NWalesPoliceFed**

Twitter: **@NWalesPoliceFed**

Dewch o hyd i'ch cynrychiolydd UNSAIN lleol ar
**https://northwalespoliceandjustice.unison.site/**

Swyddfa UNSAIN: Ffôn: **01492 804139**

E-bost: **UNISON All Reps**

E-bost: **elizabeth.mitchell@northwales.police.uk**

---

Ffynonellau:

PFOA Post Incident Procedures & the Role of the Federation Representatives (part two) SPH& MJB Chwefror 2018

PFEW Advice to officers involved in a Post Incident Procedure (PIP) adolygwyd Chwefror 2019

87434.